Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Deintyddol Ponthir
# Dyddiad y gweithgarwch: 10 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mehefin 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bostio: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN digidol 978-1-80364-343-4
WG41024 © Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Ponthir fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Practis Deintyddol Ponthir yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghasnewydd, Gwent a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o Restore Dental Group, sydd â rhwydwaith o bractisau deintyddol ledled De Cymru, ac mae'n rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a phreifat.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol i sicrhau gweithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr Practis Deintyddol Ponthir a'r rheolwr clinigol gweithredol ar gyfer Restore Dental Group ar 10 Mai 2022, a wnaeth roi gwybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau sydd wedi cael eu gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal?
- Sut mae'r practis yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau agored i niwed/mewn perygl) gael mynediad i wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel?
- Sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut mae'r practis yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae’r gwasanaeth wedi ymateb i’r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae’r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli’r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg amgylcheddol y practis
- Rhestr wirio asesiad risg COVID-19.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod Practis Deintyddol Ponthir wedi'i leoli mewn adeilad a adeiladwyd yn bwrpasol. Dywedwyd wrthym ei fod yn monitro amgylchedd y practis yn weithredol ac yn rheolaidd i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn daclus.

Clywsom, ar ddechrau pandemig COVID-19, fod amgylchedd y practis wedi cael ei asesu i gynorthwyo â’r gwaith o reoli heintiau a’i wella. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau canlynol wedi cael eu gwneud:

- Rhoi gweithdrefnau desgiau clir ar waith a symud eitemau diangen o'r ystafelloedd triniaeth, y dderbynfa a'r ardal aros
- Ffannau echdynnu wedi'u gosod ym mhob ystafell driniaeth
- Sgrin wydr amddiffynnol wedi'i gosod yn y dderbynfa
- System un ffordd ar waith
- Arddangos arwyddion cadw pellter cymdeithasol a marciau tâp wedi'u gosod ar y llawr
- Ail-bwrpasu ystafell yn ystafell “gwisgo a diosg” ar gyfer cyfarpar diogelu personol
- Peiriannau hylif diheintio dwylo ar gael mewn lleoliadau amrywiol gan gynnwys y fynedfa a’r allanfa.

Er mwyn diogelu staff a chleifion yn y practis, dywedwyd wrthym fod y drws blaen dan glo ar bob adeg er mwyn atal aelodau'r cyhoedd rhag dod i'r adeilad heb oruchwyliaeth a heb apwyntiad.

Mae unrhyw gleifion y mae angen iddynt weld y deintydd yn derbyn gwahoddiad i ddod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, a bod yr holl gleifion sy'n gorfod derbyn triniaeth yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19. Cawsom wybod hefyd fod tymereddau'r cleifion yn cael eu cymryd a'u cofnodi wrth iddynt gyrraedd. Hefyd, wrth i gleifion gyrraedd y practis, mae'r staff yn gofyn y cwestiynau sgrinio am COVID-19 iddynt, a hynny cyn cael mynediad i mewn i'r ddeintyddfa.

Cawsom wybod bod rhai cadeiriau wedi cael eu symud o'r ardal aros i sicrhau bod cleifion yn cadw pellter cymdeithasol.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y cyffuriau ac offer brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle mae modd cael mynediad atynt ar unwaith yn achos argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod system ar waith i wirio'r cyfarpar a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn ddyddiol i sicrhau nad ydynt wedi dyddio a'u bod yn barod i'w defnyddio, yn unol â safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).

Gwelsom hefyd fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) ac wedi derbyn hyfforddiant tân.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod rhai taflenni wybodaeth ac arwyddion yn y practis yn ddwyieithog. Dywedwyd wrthym fod rhai aelodau o staff yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog â chleifion. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth hwn yn cael ei hyrwyddo gan staff yn nodi hyn drwy wisgo logo Iaith Gwaith. Mae'r brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau'r Gymraeg drwy nodi siaradwyr Cymraeg. At hynny, dywedwyd wrthym y gall dau glinigwr siarad Arabeg, a bod clinigydd arall yn gallu siarad Groeg. Mae gan y practis fynediad i gyfieithydd ac roedd poster ar gael i gleifion nodi eu dewis iaith.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiad er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi COVID-19

- Cofnodion o wiriadau dyddiol o'r bath uwchsonig a gweithdrefnau glanhau â llaw
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r peiriannau awtoclaf
- Rhestr wirio ar gyfer y gwaith cynnal a chadw dyddiol yn y ddeintyddfa
- Memorandwm yr archwiliad dihalogi diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[1] a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella
- Polisi dihalogi'r amgylchedd
- Polisi rheoli croes-heintio
- Asesiad risg gweithlu COVID-19 Cymru gyfan.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheolaeth ddeintyddol cleifion yng Nghymru yn ystod y cyfnod adfer ar ôl pandemig COVID-19. Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan yr holl leoliadau gofal deintyddol cyffredinol yng Nghymru.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y staff wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ynglŷn â COVID-19 trwy grŵp WhatsApp penodol[2], cyfarfodydd dyddiol a thrwy e-bost. Trafodir unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau newydd yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y tîm, sy'n cael eu cofnodi. Mae cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod gan bawb gyngor ac arweiniad cyfredol ar COVID-19.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod prosesau ar waith i ddiogelu cleifion a staff yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau[3]. Dywedwyd wrthym fod y broses hon yn dilyn y canllawiau mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r holl staff ynghylch y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol.

Cawsom wybod bod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant neu arweiniad mewnol ar bynciau amrywiol megis adnabod symptomau COVID-19, rheoli cleifion sydd â symptomau COVID-19, a'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg cyfarpar a chael gwared arno'n ddiogel ar ôl ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff sy'n defnyddio masgiau FFP3[4] wedi cael prawf ffitio i

[1] Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd â dihalogi. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, AGIC.

[2] Cymhwysiad traws-blatfform anfon negeseuon ar unwaith yw WhatsApp Messenger sy'n galluogi defnyddwyr ffonau clyfar iPhone, BlackBerry, Android, Windows Phone a Nokia i gyfnewid negeseuon testun, delwedd, fideo a chlywedol am ddim. Yn ogystal â negeseuon sylfaenol, mae WhatsApp yn darparu opsiynau sgwrsio mewn grŵp a rhannu lleoliadau.

[3] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr aer (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnynnau.

[4] Cynlluniwyd anadlyddion FFP3 i ddiogelu'r sawl sy'n eu gwisgo rhag anadlu gronynnau bychain yn yr awyr a allai

sicrhau bod y masgiau'n ffitio'n gywir ac y bydd yn cynnig amddiffyniad digonol. Dywedwyd wrthym fod tri aelod o staff wedi'u hyfforddi i gynnal prawf ffitio masgiau FFP3.

Cadarnhawyd bod pob aelod o staff wedi derbyn asesiad risg manwl COVID-19[5] er mwyn asesu'r risgiau personol o barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19.

Cawsom wybod y gwneir y defnyddio gorau posibl o'r cyfarpar diogelu personol a bod digonedd o stoc yn cael ei chyrchu a'i monitro'n wythnosol gan aelod o'r tîm.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau gan ddefnyddio offerynnau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru,[6] sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Gwnaethom gydnabod hyn fel arfer da oherwydd cwmpas cynhwysfawr yr archwiliad. Gwelsom dystiolaeth fod y cynllun gweithredu canlyniadol ar waith ac yn cael ei fonitro. Gwnaethom hefyd nodi bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen cynnal a chadw dyddiol ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr cofnodi ar waith ar gyfer yr awtoclaf[7] a'r bath uwchsonig[8] ac yn dangos bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd y dydd.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom archwilio p'un a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Datganiad o Ddiben

---

gynnwys firysau.

[5] Datblygwyd yr Offeryn Asesu Risg hwn i helpu pobl sy'n gweithio yn y GIG a maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i weld a ydynt mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol os ydynt yn dod i gysylltiad â'r feirws COVID-19.

[6] Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGI) yn ymrwymedig i drawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach. Awdurdod Iechyd Arbennig ydyw yn GIG Cymru ac mae'n cyd-fynd â byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd.

[7] Math o offer yw awtoclafau a ddefnyddir mewn practisau deintyddol i sterileiddio'r holl offer a'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir mewn gweithdrefnau proffesiynol.

[8] Mae glanhawr uwchsonig yn cael gwared ar fiolwyth drwy ddefnyddio tonnau sain a gynhyrchir gan ynni trydanol. Wrth i'r tonnau sain symud trwy'r toddiant glanhau hylifol, maent yn achosi i filiynau o swigod bach ffurfio a byrstio.

- Taflen wybodaeth i gleifion
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Adroddiad cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisïau / gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol
- Adroddiad Rheoliad 23 (ymweliad yr unigolyn cyfrifol).

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cawsom sampl o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn a bod fersiynau ohonynt wedi'u rheoli a’u bod yn cynnwys dyddiad adolygu.

Rhoddwyd tystiolaeth i ni a oedd yn cadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac er mwyn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

O'r dogfennau allweddol a adolygwyd gennym, roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion yn barhaus. Cawsom gopïau o archwiliadau perthnasol a oedd wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar, megis croes-heintio, nodiadau clinigol, pelydrau-X a gwastraff clinigol. Lle y bo'n ofynnol, roedd cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu a'i gynnal.

Cawsom adroddiad diweddaraf yr unigolyn cyfrifol, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dangosodd yr adroddiad dystiolaeth o'r ffordd y mae ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n cael ei reoli a'i asesu i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Gwelsom fod gan y practis gynllun parhad busnes ar waith i sicrhau dilyniant darpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion.

Cawsom wybod na wnaeth y practis gau yn ystod y pandemig. Drwy gydol y pandemig, mae’r practis wedi parhau i drin cleifion brys, ar ôl eu sgrinio ar gyfer COVID-19.

Cawsom wybod am drefniadau a wnaed a chamau gweithredu a gymerwyd hyd ddyddiad y gwiriad pan oedd angen i aelodau staff hunanynysu neu eu bod wedi cael canlyniad positif am COVID-19. Darparwyd adroddiad manwl i ni o'r weithdrefn. Roeddem wedi ein bodloni bod y gweithdrefnau yma yn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19 i staff a chleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau. Cawsom wybod bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran adrodd am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd

Cymru (AGIC) a chafwyd esboniad o’r broses hon gan reolwr y practis.

Cawsom wybod bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i gydraddoldeb a hawliau cleifion. Yn ystod y pandemig, gwnaeth y practis ddefnyddio’r gwasanaeth ‘Mynychu Unrhyw Le’[9] a brysbennu o bell i gyrraedd cleifion a oedd yn rhy ofnus i ddod i'r practis oherwydd COVID-19. Cawsom wybod hefyd bod apwyntiadau wedi'u diogelu ar gael i gleifion agored i niwed neu mewn perygl ar ddechrau neu ddiwedd pob dydd neu sesiwn. Gwnaethom nodi o'r daflen gwybodaeth i gleifion fod mynediad i bobl anabl a chyfleusterau eraill ar gael yn y practis, gan gynnwys ystafell driniaeth sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn ar y llawr daear. Fel y soniwyd eisoes, mae gan y practis hefyd fynediad i gyfieithwyr llinell iaith ac mae staff sy'n siarad Cymraeg yn gweithio yn y practis.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i’w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i’w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy’n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i’r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw’r meysydd i’w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y

[9] Mae Gwasanaeth Ymgynghori Fideo GIG Cymru yn cynnig ffordd ddiogel i wasanaethau gofal iechyd weld cleifion dros apwyntiad fideo, yn hytrach na'u gweld wyneb yn wyneb. Cyflwynir y Gwasanaeth Ymgynghori Fideo drwy blatfform cyfathrebu o'r enw 'Mynychu Unrhyw Le'.

gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.